



Bwletin GwE

Rôl 'Cymdeithion yr Academi' gyda'r Academi Arweinyddiaeth Addysgol Genedlaethol

Mae'r Academi Arweinyddiaeth Addysgol Genedlaethol yn cynnig nifer fach o rolau 'Cymdeithion' i benaethiaid mewn swydd. Bydd Cymdeithion yn gweithio un diwrnod yr wythnos yn helpu i ddatblygu'r Academi newydd, gan gynnwys llunio ei rhaglen arweinyddiaeth lefel uchel gyntaf a chraffu ar y rhaglenni a gyflwynir i'w cymeradwyo.

[Cliciwch yma](#) am ragor o wybodaeth.

DYDDIAD CAU: DYLID CYFLWYNO CAIS YSGRIFENEDIG, YNGHYD Â DATGANIAD ATEGOL SY'N DANGOS SUT RYDYCH YN BODLONI'R MEINI PRAWF AR GYFER Y SWYDD, ERBYN 19 IONAWR 2018

Cynnig Proffesiynol GwE

Mae cynnig proffesiynol GwE yn un cynhwysfawr ac eang sy'n cynnig cyfleoedd dysgu proffesiynol i holl staff yr ysgol, o gymorthyddion dysgu sydd eisiau cymhwyster Cynorthwywyr Addysg Lefel Uwch i Raglen Datblygu Darpar Arweinwyr, Rhaglen Datblygu Arweinyddiaeth Ganol a chymhwyster CPCP ar gyfer darpar benaethiaid. [Cliciwch yma](#) am ragor o fanylion.

Canmoliaeth i GwE

[Cliciwch yma](#) i weld clip fideo o'r Athro Donaldson yn canmol GwE am ein ffordd o weithio ar y cyd yn ystod cyfarfod o'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn y Senedd.

Y Gymraeg mewn Addysg: Cynllun Gweithredu 2017-2021

Cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg a Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes 'Y Gymraeg mewn Addysg: Cynllun Gweithredu 2017-2021' sydd yn amlinellu sut y byddant yn datblygu addysg cyfrwng Cymraeg a'r iaith Gymraeg dros y pedair blynedd nesaf yn unol â gweledigaeth Cymraeg 2050: miliwn o siaradwyr' ac 'Addysg yng Nghymru: cenhadaeth ein cenedl'. [Cliciwch yma](#) i ddysgu mwy.

Cyfleoedd Hyfforddi Cynradd

Gwaith Ymchwil Gweithredol Cynradd – Ennyn diddordeb grwpiau o ddysgwyr sy'n tangyflawni mewn mathemateg gan ddefnyddio IZak9 ★NEWYDD★

Gwahoddir ceisiadau gan ysgolion unigol/grwpiau o ysgolion/clwstwr o ysgolion, i gymryd rhan mewn prosiect cyffrous sy'n defnyddio'r adnodd masnachol IZak9 i ddatblygu rhuglder disgyblion gyda rhifau, eu sgiliau datrys problemau a'u gallu i resymu, gan ddefnyddio dull arloesol a chydweithredol. [Darllenwch fwy yma...](#)

Safoni, Cymedroli a'r Camau Nesaf yn y CS

[Cliciwch yma](#) i gofrestru ac i weld rhestr o ddyddiadau a lleoliadau'r gweithdai cyfrwng Cymraeg. [Cliciwch yma](#) am restr o'r gweithdai Saesneg.

Cymhwysedd Digidol

Cyfleoedd Hyfforddi Uwchradd

Cyfarfodydd Rhwydwaith Arweinwyr

Llythrennedd ★NEWYDD★

Cynhelir cyfarfodydd rhwydwaith Llythrennedd lleol y tymor hwn, er mwyn i Arweinwyr Llythrennedd rannu arferion da a thrafod datblygiadau i'r dyfodol.

[Cliciwch yma](#) am restr o'r dyddiadau a lleoliadau.

Cwrs Cymraeg

DYDD MERCHER, 28 CHWEFOR 2018 – GLASDIR, LLANRWST
Cwrs i athrawon sy'n addysgu Cymraeg wedi'i anelu at ANG a hefyd athrawon sy'n dysgu Cymraeg y tu allan i'w pwnc arferol. Cyfranwyr: Ymarferwyr rhagorol o'r rhanbarth gan gynnwys Llio Japheth o Ysgol Dyffryn Conwy. Bydd arweiniad ar addysgu gwaith llafar, darllen ac ysgrifennu yn llwyddiannus.

Am ragor o fanylion, cysylltwch â RhianMairJones@gwegogledd.cymru
Lle i 20 yn unig felly y cynta' i'r felin...

Mae'r system gofrestru ar gyfer cyrsiau cymhwysedd digidol bellach yn fyw. [Cliciwch yma](#) i weld yr holl gyrsiau hyd at ddiwedd Mawrth 2018.

Digwyddiad Dysgu Digidol

Dyma gyfle gwych i holl staff eich ysgol ddod i ddysgu mwy am y datblygiadau diweddaraf ym maes dysgu digidol mewn digwyddiad ar ôl ysgol. [Cliciwch yma](#) i gofrestru.

Arfarnu a Gwella Ansawdd Addysgu yn Effeithiol Drwy Ddefnyddio Continua Addysgu – Yr Offeryn Hunan Arfarnu i Athrawon - Gareth Coombes

HYFFORDDIANT AR GYFER HOLL BENAETHIAID NEU ARWEINWYR DYSGU YSGOLION Y RHANBARTH

Bwriad yr hyfforddiant yw cefnogi arweinwyr wrth fynd ati i wella addysgu ar gyfer dysgu mewn ffordd strwythuredig a chynaliadwy. [Cliciwch yma](#) i gofrestru.

Nodwch fod yr hyfforddiant yma drwy gyfrwng y Saesneg ond bydd y deunyddiau i gyd ar gael yn y Gymraeg.

Diwrnod Syrthio Mewn Cariad â'r Celfyddydau

2 ★NEWYDD★

Ar gyfer athrawon Cyfnod Allweddol 2

Yn dilyn llwyddiant aruthrol y digwyddiad yn 2017, dyma gyfle gwych eto i Athrawon Ysgol Gynradd baratoi ar gyfer y Cwricwlwm Dysgu Creadigol Newydd

[Am ragor o wybodaeth, cliciwch yma.](#)

Hyfforddiant Into Film

Mae Into Film a GwE yn cynnal cwrs creu ffilm ar gyfer athrawon CA2. [Cliciwch yma](#) i gofrestru.

Cyfleoedd Datblygu Proffesiynol

GWYBODAETH BWYSIG I CALUau A CHYMORTHYDDION DYSGU AR DRAWS CYMRU

A.*Cynllun Cynorthwywyr Addysgu Lefel**

Uwch – CALU***

Ydych chi am ennill statws CALU? Mae'r rownd nesaf yn cychwyn ym mis Ionawr.

Dewch i un o'r Sesiynau Gwybodaeth CALU ar gyfer Cynorthwywyr Addysgu a'u Penaethiaid/Rheolwyr, a gynhelir ar draws y rhanbarth rhwng 11 ac 16 Ionawr 2018.

Yn ogystal â chael gwybodaeth am y cynllun ei hun, bydd cynrychiolwyr o golegau lleol yno i ateb eich cwestiynau am fynediad i gyrsiau sy'n arwain at gymwysterau Lefel 2.

Dilynwch y [ddolen](#) am ragor o wybodaeth, yn cynnwys dyddiadau a lleoliadau'r Sesiynau Gwybodaeth.

Cyfleoedd Hyfforddi Eraill

Gweithdai “Cynllunio, Gwneud, Adolygu.”

★NEWYDD★

SUT I ADEILADU E-BORTFFOLIO GAN Y CGA.

I gofrestru ac am restr o ddyddiadau a lleoliadau, [cliciwch yma.](#)

Cyflwyniad i Golled a Phrofedigaeth ar gyfer Ysgolion

DYDD MAWRTH, 6 CHWEFOR 2018 – VENUE CYMRU, LLANDUDNO

Hyfforddiant un diwrnod a hwylusir gan *Child Bereavement UK*. Bydd yr hyfforddiant yn gyflwyniad i golled a phrofedigaeth gyda ffocws ar ymyriadau seiliedig ar dystiolaeth a chymorth y gall ysgolion ei weithredu gyda dysgwyr.

[Cliciwch yma](#) i gofrestru.

Digwyddiadau Diogelwch Ar-lein

[Cliciwch yma](#) i ddarganfod dyddiad a lleoliad digwyddiad diogelwch ar-lein sydd yn gyfleus i chi.

B. Rhaglenni Datblygu Newydd, Tymor y Gwanwyn 2018

Darperir dwy raglen newydd ar draws Cymru ar gyfer Cymorthyddion Dysgu:

- Rhaglen sefydlu ar gyfer cymorthyddion dysgu newydd
- Hyfforddiant i gymorthyddion dysgu profiadol

Ni fydd unrhyw gost ynghlwm â'r rhaglenni a thelir costau llanw.

Am ragor o wybodaeth, [cliciwch yma](#).

C. Cynhadledd CALU, 2 Mawrth 2018, Venue Cymru, Llandudno

Cynhadledd i gymorthyddion dysgu sydd â statws CALU. Cyfle i gael gwybodaeth gyfredol am: y Llwybr Dysgu Proffesiynol Cenedlaethol; statws proffesiynol; rolau Cymorthyddion Dysgu; Cwricwlwm i Gymru a'r Safonau newydd.

Ni fydd unrhyw gost i fynychu'r gynhadledd a thelir costau llanw.

Am fanylion pellach ac i gofrestru, [cliciwch yma](#).

Gweithgor Cyfathrebu

Addysg ★NEWYDD★

Mae [blog brysur 'Cwricwlwm i Gymru'](#) wedi cynnwys yr isod yn ddiweddar:

- **'CANFOD 'DRWS FFYRYNT' EIN CWRICWLWM NEWYDD**
Stori Ysgol Gyfun Porthcawl fel Arloeswyr y Cwricwlwm eleni' gan yr athrawes Kath Lewis.
- **'MILIWN O SIARADWYR CYMRAEG – GALLWN WNEUD IDDO DDIGWYDD'**
gan yr Ymgynghorydd Katherine Davies.
- **'BETH SY'N ACHOSI PROBLEMAU TG EICH YSGOL?'**
gan Ddirprwy Gyfarwyddwr Llywodraeth Cymru, Ruth Meadows.

Dysgu Digidol

Digwyddiad Dysgu Digidol Cenedlaethol 2018 - Gwobr Disgybl Cyngor Dysgu Digidol

Cenedlaethol ★NEWYDD★

Cynhelir Digwyddiad Dysgu Digidol Cenedlaethol 2018 unwaith eto ym mis Mehefin.

[Cliciwch yma i ddarllen mwy...](#)

Secstio: Ymateb i achosion a diogelu dysgwyr.

Canllawiau ar gyfer lleoliadau addysgol yng

Nghymru ★NEWYDD★

Dymuna GwE dynnu eich sylw at ganllawiau dwyieithog newydd ar gyfer ysgolion a lleoliadau addysgol eraill yng Nghymru, wedi cael eu cyhoeddi yn ddiweddar o dan y pennawd uchod.

[Cliciwch yma am ragor o wybodaeth...](#)

Hysbysebion a Newyddion

Prosiectau Llafaredd BookTrust Cymru ★NEWYDD★

[Cliciwch yma](#) am ddiweddariad llawn ar gynnydd prosiectau llafaredd BookTrust Cymru.

Menter Ysgolion y Dreftadaeth Gymreig – 2018

Lansiwyd y Fenter ym 1990, dan nawdd y Sefydliad Materion Gymreig. Y nod yw annog pobl ifanc mewn ysgolion yng Nghymru i ymddiddori mwy yn eu treftadaeth ac yng nghyfraniad eu teuluoedd a'u cymunedau at y dreftadaeth honno. Mae'r Fenter yn cynnal cystadleuaeth flynyddol ar gyfer prosiectau treftadaeth yn ysgolion Cymru.

Am ragor o fanylion, cliciwch [yma](#).

COFRESTRU CEISIADAU ERBYN: 2 CHWEFROR 2018

Swyddi Allanol

Swyddog Prosiect Dros Dro

Am sgwrs anffurfiol, gellir cysylltu ag Eleri Llewelyn Owen ar 01286 679671 neu ewch i www.gwynedd.llyw.cymru

Ffurflenni cais a manylion pellach gan Gwasanaeth Cefnogol, Cyngor Gwynedd, Swyddfa'r Cyngor, Stryd y Jêl, Caernarfon, LL55 1SH

Ffôn: 01286 67076

E-Bost: swyddi@gwynedd.llyw.cymru

DYDDIAD CAU: 10.00 O'R GLOCH, DYDD IAU, 11 IONAWR 2018

Swyddfa GwE Yr Wyddgrug

O ddydd Mercher, 6 Rhagfyr 2017, bydd Swyddfa GwE yr Wyddgrug yn Linden House, Parc Busnes Yr Wyddgrug.

Gweler isod y manylion ar gyfer y swyddfa newydd:



Swyddfa GwE, Linden House, Parc Busnes Yr Wyddgrug, Ffordd Wrecsam, Yr Wyddgrug, CH7 1XP



01352 744600

Cofiwch ddilyn @GwEGogleddCymru ar Twitter

GwEGogledd.Cymru

Am ragor o wybodaeth, ewch i'n [gwefan](#)

